# HUMPHREYS, THOMAS JONES (1841 - 1934), gweinidog Wesleaidd

**Enw:** Thomas Jones Humphreys
**Dyddiad geni:** 1841
**Dyddiad marw:** 1934
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Griffith Thomas Roberts

Ganwyd 16 Mai 1841 yn Narowen, yn   yr o du ei dad i un o ymddiriedolwyr cyntaf capel Wesleaidd T   Cerrig. Addysgwyd ef yng Ngh。oleg Normal Abertawe (1861-2). Bu'n bregethwr cyflogedig ar gylchdaith Pwllheli (1862-5), ac wedi hynny yn weinidog ar gylchdeithiau Amlwch (1865), Abergele (1867), Blaenau Ffestiniog (1869), Llanberis (1872), Bagillt (1874), Llanfaircaereinion (1877), Tregarth (1880), Bangor (1883), Dolgellau (1886), Coedpoeth (1889), Llanrhaeadr Mochnant (1892), Manceinion (1894), yr Wyddgrug (1897), Conwy (1900), Manceinion (1903), Machynlleth (1905), Coedpoeth (1907). Ymneilltuodd yn 1910; bu farw ym Mangor 16 Chwefror 1934. Yr oedd yn llywydd y gymanfa Wesleaidd yn 1906.

Ysgrifennodd ysgrifau lawer i'r *Eurgrawn Wesleaidd*, yn cynnwys cyfres ar ' Emynyddiaeth Wesleyaidd Gymreig ' (1902-3). Ymysg ei lyfrau cyhoeddedig gellir enwi ' *Esboniad yr Efrydydd* ' ar *Rhufeiniaid* 1889, *Ioan* 1891, *Hebreaid* 1892, *Matthew* 1895, *Marc* 1898, a *Luc* 1899; llyfrau athrawiaethol fel *Rhagoriaeth Moesoldeb y Beibl* 1880, *Damcaniaeth Dadblygiad* 1880, *Athroniaeth Foesol y Beibl* 1883, ac eraill; llawlyfr ar drefn y Wesleaid, *Y Rheoliadur*, 1885; a braslun gwerthfawr o hanes ei gyfundeb, *Methodistiaeth Wesleyaidd Gymreig*, 1900. Daliodd hefyd swyddi taleithiol, a bu'n aelod o fyrddau ysgol Abermaw a'r Wyddgrug.

## Awdur

**Y Parchedig Griffith Thomas Roberts**, (1887 - 1977)

## Ffynonellau

*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1912, 321-4; 1934, 127-32; 1872, 260, 297-9; 1927, 241-6

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734492

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu